**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 Mehefin, 2022**

**Yn NEUADD BENTREF COED-Y-BRYN, COED-Y-BRYN am 7.30 p.m.**

**Yn bresennol** Cyng. Emyr Jones (cadeirydd), Cyng. Ceri Jones, Cyng. Sharon Thomas, Cyng. Teifi Evans, Cyng. Roger Davies, Cyng. Siân Williams, Cyng. Maldwyn Lewis, Cyng. Mark Davies

**Ymddiheuriadau** Cyng. Rob Jones, Clerc Margaret Jones

**Clerc** Cytunwyd penodi Cyng. Sharon Thomas fel clerc dros dro

| Eitem ar yr Agenda | | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng.Rob Jones. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Cyng. Emyr Jones mewn perthynas â chais Cynllunio A220248. | | |
| 3 | Cofnodion | Roedd yr holl Gynghorwyr wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Mai. | | |
| 4. | Materion yn Codi | Roedd Cyng. Maldwyn Lewis yn dymuno diwygio pwynt 6 – nid yw maint Ward y Cyngor Cymuned wedi tyfu, rôl y Cynghorydd Sir sydd wedi tyfu i gynnwys dwy ward, sef Troedyraur a Gogledd Llandysul. | | |
| 5. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Roger Davies bod cofnodion cyfarfod mis Mai yn gywir, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Maldwyn Lewis (ar ôl gwneud y diwygiadau). | | |
| 6. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Mynegodd Cyng. Maldwyn Lewis ei dristwch mawr ynghylch marwolaeth sydyn Cyng. Hagg Harris o Lanbedr Pont Steffan. Roedd yn dymuno estyn ei gydymdeimlad i'r teulu, gan nodi ei wasanaeth hir i Dref Llanbedr Pont Steffan a'r ardal.<br>Mae cerflun o'r enw 'Angel Cyllyll' yn cael ei arddangos yn Neuadd y Brenin yn Aberystwyth ac mae'n cynnwys can mil o gyllyll. Mae Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, wedi sicrhau y bydd yng Ngheredigion am fis, a'i ddiben yw amlygu troseddau cyllyll.<br><br>Cynhelir ymgynghoriad ar-lein gyda'r Cyngor ac NRW ynghylch llifogydd yn Llandysul a Phont-tyweli. Ei nod yw gweld a oes ffyrdd o wella/osgoi llifogydd.<br><br>Yn ogystal, cynhelir ymgynghoriad gan y Cyngor a fydd yn ceisio lleihau terfynau cyflymder mewn pentrefi fel Rhydlewis a Choed-y-bryn o 30 i 20. | | |
| 7. | Gohebiaeth | Cafwyd llythyr gan Ben Lake AS yn sôn y dylem gysylltu ag ef os bydd angen unrhyw help arnom gyda materion. | | |

| | |
|---|---|
| 8. Cynllunio | A220248 Coed-y-bryn – Gadawodd Cyng. Emyr Jones yr ystafell yn ystod y drafodaeth hon. Trafodwyd y cais ac roedd yr holl Gynghorwyr o'r farn nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiadau ar yr amod y dilynir rheoliadau cynllunio y Cyngor Sir.<br><br>A220304 Glasfryn, Croes-lan – Dychwelodd Cyng. Emyr Jones i'r ystafell. Trafodwyd y cais ac roedd yr holl Gynghorwyr o'r farn nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiadau ar yr amod y dilynir rheoliadau cynllunio y Cyngor Sir. |
| 9. Asesiad Risg | Dosbarthwyd y templed i'r aelodau gan y Clerc. Awgrymodd Cyng. Mark Davies y dylid gwneud y diwygiadau canlynol: cynnwys y Diffibriliwr a Chadwyn y Cadeirydd fel Asedau Penodol – roedd yr holl Gynghorwyr a oedd yn bresennol yn cytuno, a hefyd, y dylid ychwanegu adran ynghylch 'Covid'. Trafodwyd yr adran 'Staff' a 'Diogelwch Dogfennau' ac roedd yr holl Gynghorwyr yn cytuno ar y diweddariadau. Gweithredir y diwygiadau hyn a byddant yn cael eu diweddaru yn yr Asesiad Risg. **Clerc** |
| 10. Diweddariad am y Cyfansoddiad | Cafwyd trafodaeth hir am y cyfansoddiad a chytunodd yr holl Gynghorwyr a oedd yn bresennol ar y diwygiadau canlynol: dan ‘Rheolaeth o'r Gyllideb', ceir adran a fydd yn cynnwys - 'Caiff swm o £1000 ei neilltuo fel dosbarthiad arbennig ar gyfer digwyddiadau neilltuedig'. Cynigiwyd hyn gan Gyng. Teifi Evans ac fe'i eiliwyd gan Gyng. Roger Davies.<br>Yn ogystal, ar bwynt 1:5, nododd Cyng. Maldwyn Lewis bod angen diweddaru'r adran hon er mwyn nodi 'Cynhelir pleidlais trwy godi llaw neu mewn cyfarfod hybrid neu electronig, defnyddir dull cofnodi cytunedig'. **Clerc**<br>Trafodwyd hefyd y bydd angen ychwanegu'r cyfarfodydd hybrid i'r cyfansoddiad ar ryw adeg.<br>Yn ogystal, trafodwyd yr angen am WI-FI yn y Neuaddau Pentref yn y dyfodol os cynhelir cyfarfodydd hybrid. Trafodir yr Eitemau hyn ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf. |
| 11. Ariannol | **Ymchwiliad Archwilio** – bydd y Cynghorwyr canlynol yn cyfarfod ar nos Lun 27 Mehefin yn Neuadd Bentref Coed-y-bryn am 7.30pm i fynd trwy'r ohebiaeth a gafwyd – Cyng. Maldwyn Lewis, Cyng. Mark Davies, Cyng. Siân Williams, Cyng. Sharon Thomas, Clerc. **Clerc**<br><br>**Llofnodwyr NatWest** – Nid oedd y Clerc wedi cael unrhyw ohebiaeth gan y banc. Gan nad oedd Cyng. Rob Jones yn y cyfarfod, cynigiodd Cyng. Mark Davies gael sgwrs gyda Chyng. Jones ynghylch yr angen iddo fynd i'r banc gyda'r manylion adnabod perthnasol. **Cyng. Mark Davies**<br><br>**Taliadau** CThEM - £43.40 (PAYE)<br>Cyflog y Clerc - £173.80<br><br>Llofnododd Cynghorwyr Maldwyn Lewis a Roger Davies y sieciau uchod yn ystod y cyfarfod. |

| | | |
|---|---|---|
| 12. | Materion Ardal | Hysbysodd Cyng. Siân Williams y cynhaliwyd Noson Agored lwyddiannus yn Neuadd Coed-y-bryn i lansio Prosiect Ffrwyth y Coed ar nos Wener, 20 Mai 2022 am 6.00 p.m.<br><br>Nododd Cyng. Siân Williams hefyd bod grŵp o bobl leol wedi cyfarfod i dacluso ardal y sgwâr yng Nghoed-y-bryn.  Roeddent wedi bod yn chwynnu ac yn plannu blodau, gan wneud gwaith gwych.  Cyfeiriodd nifer o Gynghorwyr at y gwaith a gyflawnwyd.  Rhoddwyd nwyddau a blodau gan Drefhedyn a Siop Bargoed yn Saron.<br><br>**Cynghorydd Newydd** – cafwyd hysbyseb gan Swyddfa'r Cyngor yn Aberaeron a chaiff ei gosod ym mlychau arddangos yr ardal.   **Clerc**<br><br>Hysbyswyd y grŵp gan Gyng. Mark Davies bod y gyngerdd yn Neuadd Bentref Ffostrasol gyda Dafydd Pantrod wedi cael ei gohirio tan fis Hydref.<br><br>Nododd Cyng. Mark Davies ei bod yn dda gweld bod siop Ffostrasol wedi ailagor ac roedd yn dymuno'n dda iddynt.<br><br>Mynegodd Cyng. Teifi Evans ei dristwch ynghylch y tân yn Llys Gwernant a nododd ein bod yn meddwl am Richard, Nichola, Dafydd a Jac.<br><br>Nododd Cyng. Ceri Jones bod angen trwsio'r fainc gyferbyn â Chapel Hawen – roedd astell yn rhydd.  Roedd pawb yn cytuno y dylai Cyng. Ceri Davies fynd ati i'w thrwsio.  Nododd hefyd bod tyllau yn y ffordd rhwng y Capel a'r Cigydd.<br><br>Adroddodd Cyng. Mark Davies hefyd bod tyllau yn y ffordd ar y sgwâr yn Ffostrasol ar ffordd Plwmp ger y siop.<br><br>Roedd angen adrodd am y ddau ar Clic.   **Clerc**<br><br>Mae Gwarcheidwaid y Diffibrilwyr fel a ganlyn:<br>Rhydlewis – Cyng. Ceri Davies; Ffostrasol – Cyng. Mark Davies<br>Maes-llyn – Cyng. Siân Williams; Brongest – Cyng. Teifi Evans<br>Penrhiwpâl – Cyng. Maldwyn Lewis; Croes-lan – Cyng. Sharon Thomas<br>Bwlch-y-groes – Cyng. Mark Davies (dros dro). |
| 13. | Cyfryngau Cymdeithasol | Trafodwyd Cyfryngau Cymdeithasol a chytunwyd y bydd Cyng. Siân Williams yn creu tudalen Facebook ar gyfer y Cyngor Cymuned.  Yn ogystal, cytunwyd newid y grŵp What's app er mwyn cynnwys pawb ar Bwyllgor y Cyngor Cymuned.   **Cyng. Siân Williams**<br>**Cyng. Sharon Thomas** |
| 14. | Gweithio Hybrid | Trowch at eitem 10. |
| 15. | Unrhyw Fater Arall | Llofnodwyd Ffurflenni Datganiad Derbyn Swydd a Phroses Penderfyniad Lleol gan y Cynghorwyr a oedd yn bresennol.<br>Trafodwyd y cinio blynyddol a chytunwyd ei gynnal yn Daffodil Inn, Penrhiw-llan.  Cynigiwyd hyn gan Gyng. Siân Williams ac fe'i eiliwyd gan Gyng. Roger Davies.  Cytunwyd ar y dyddiad, sef 14.07.22.  Bydd y clerc yn cysylltu i weld a oes lle ar gael.  Ar ôl cadarnhau'r dyddiad, |

bydd y Clerc yn anfon gwahoddiadau at Owenna Davies?, Julie? A Beryl Davies? **Clerc**

Bydd Cyng. Mark Davies yn archebu 3 ffrâm ar gyfer y tystysgrifau. **Cyng. Mark Davies**

| | | |
|---|---|---|
| 16. | Cyfarfod Nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH,12.07.22 am 7.30 p.m. yn Neuadd Bentref Rhydlewis, yna cynhelir **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**. Bydd y Clerc yn holi i weld a yw'r Neuadd ar gael. **Clerc**<br><br>Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 9.30 p.m. |
| 17. | Eitemau ar gyfer yr Agenda Nesaf | |
| 18. | Cyfarfod Nesaf | **NOS FAWRTH, 12 Gorffennaf, 2022** am **7.30 p.m.** yn Neuadd Bentref Rhydlewis |